



TGAU

**3010N10-1**

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1: Barddoniaeth**

**HAEN SYLFAENOL**

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

## **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

**UN CWESTIWN GORFODOL** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

**Yn y cerddi mae'r beirdd yn sôn am berthynas ramantus sydd wedi newid dros amser.**

**Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.**

**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
  - **Dywedwch beth yw'r stori sydd yn y cerddi.**
  - **Beth sy'n debyg/wahanol yn y ddwy stori?**
  - **Beth ydy neges y ddau fardd i ni?**
  
- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
  
- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn**

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR**

**Yn fan hyn, aeafau'n ôl,  
yn ddifaddau o feddwol,  
fe'i gwelais; estynnais stôl.**

**Ordrais beint ar draws y bar  
a'i gwylio, yn llawn galar,  
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.**

**Yn ei llygaid tanbaid hi  
roedd 'na gefnfor o stori,  
a hyder a direidi**

**yn eu llawnder i'n herio,  
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro  
ond a dal i'w lled-wylio...**

**Ym mrad yr edrychiadau,  
yn sŵn ein dawns ni ein dau,  
am ei swyn mi es innau**

**yn rhy ddedwydd freuddwydiol,  
yn ddifaddau o feddwol,  
yn fan hyn, aeafau'n ôl.**

**Rhys Iorwerth**

**MÔR O GARIAD**

Eistedd yma'n unig 'ben fy hun,  
 Heno 'sdim amynedd i \*helbul byd,  
 ond mae'r nos yn \*ffoi, fel mae'r byd yn troi  
 fel y môr o gariad a roddais i ti.

'Sdim byd yma heno ond \*adlais cariad mawr,  
 a'n gwydrau \*gweigion ar y llawr  
 ac i \*gwpla'r llun  
 yn y botel, \*gwaddod gwin –  
 gwaddod y môr o gariad a roddais i ti.

Hwn oedd cariad glân,  
 hwn oedd cariad \*ffôl,  
 roeddwn i ar dân –  
 nawr 'sdim ar ôl.

Strydoedd oer y ddinas,  
 strydoedd mor llawn;  
 atgofion fydd amdani,  
 ei \*serch a'i dawn.  
 \*\*Serch hynny mae'n rhaid byw,  
 ymuno efo hwyl y criw.  
 Sych yw'r môr o gariad  
 a roddais i ti.

**Meic Stevens**

(Trowch y dudalen)

## **GEIRFA**

**\*helbul – helynt/trafferthion**

**\*ffoi – dianc**

**\*adlais – cofio am**

**\*gweigion – gwag**

**\*gwpla/cwpla – gorffen**

**\*gwaddod – gweddill, beth sydd ar ôl**

**\*ffôl – gwirion**

**\*serch – cariad**

**\*\*serch – er**

## **DIWEDD Y PAPUR**